



YSGOL HAFAN Y MÔR  
Heywood Lane,  
Dinbych y Pysgod/ Tenby,  
SA70 8BZ

☎ 01834-843248

✉ [admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk](mailto:admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk)

19.7.19

Annwyl rieni, gofalwyr, staff, llywodraethwyr a ffrindiau'r ysgol,

A ninnau wedi cyrraedd diwedd blwyddyn academiaidd arall, hoffwn estyn fy niolchiadau i chi gyd am eich cymorth a'ch cydweithrediad. Mae wedi bod yn flwyddyn prysur a llwyddiannus i Ysgol Hafan y Môr.

Dymunwn yn dda i griw Blwyddyn 6 sydd yn dechrau pennod newydd cyffrous yn eu bywydau. Cofiwch yr hyn rydych wedi dysgu yn Ysgol Hafan y Môr a chofiwch i anelu am y gorau o hyd.

### Trefniadau dosbarthiadau mis Medi 2019

Dosbarth / Class	Blwyddyn Ysgol / Year Groups	Staff
Cylch Meithrin Tonnau Bac	Gofal Cofleidol + plant 2oed / Wrap Around Provision + 2yr old provision	<b>Miss Angharad Davies</b> Mrs Emma Rossiter + Miss Lowri Morgan
1 - Pysgod Chwim	Meithrin rhan amser / Part-time Nursery	<b>Ms Sian Slack</b> Mrs Eleri Gill Mrs Lisbeth Callegari
2 - Sêr y Môr	Derbyn / Reception	<b>Mrs Sue Phillips</b> Miss Sara Williams
3 - Cregyn	Derbyn / Reception Blwyddyn 1 / Year 1	<b>Mrs Mags Walters</b> Miss Chloe Jones
4 - Ynys Bŷr	Blwyddyn 2 / Year 2	<b>Mrs Sioned King</b> Miss Hayley Davies
5 - Castell Tywod	Blwyddyn 3 / Year 3	<b>Miss Lowri Jones</b> Miss Jess Prince
6 - Yr Harbwr	Blwyddyn 4 / Year 4	<b>Mr Dylan Hughes</b> Miss Jess Prince
7 - Cychod	Blwyddyn 5+6 / Year 5+6	<b>Mr Jonathan Thomas</b>

### Penodiadau staff

Bu nifer o newidiadau i staffio trwy gydol y flwyddyn, gan ffarwelio â rhai a chroesawu eraill. Ym mis Medi byddwn yn croesawu'r aelodau staff canlynol:

**Mrs Lisbeth Callegari** - Cynorthwydd cymorth dysgu

**Ms Sian Slack** - Cynorthwydd addysgu lefel uwch

**Mr Dylan Hughes** - Athro dosbarth Blwyddyn 4 (dros dro)

**Mr Steffan Davies** - Athro addysg corfforol (bl. 2, 3, 4, 5 a 6 - pob dydd Llun)

Ar hyn o bryd mae gennym hysbysebion ar gyfer athro dosbarth blwyddyn 4 a chynorthwydd cymorth dysgu ychwanegol. Byddaf yn eich hysbysu o'r aelodau newydd o staff yn dilyn y broses benodi.

### **Adroddiad Estyn**

Pleser mawr yw rhoi linc ar gyfer darllen copi electronig o adroddiad Arolygiad Estyn i chi. Cynhaliwyd yr arolygiad rhwng Mai 20 - 24 2019 ac fe'i cyhoeddwyd yn swyddogol ar wefan Estyn heddiw, Gorffennaf 23 2019. Bydd copïau caled ar gael ar gais gan Mrs Williams wrth y dderbynfa.

<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Hafan%20Y%20Mor%202016.pdf>

Dechreuodd y weledigaeth i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ninbych-y-Pysgod dros 35 mlynedd yn ôl ac o'r diwedd daeth yn wir, bron i 3 blynedd yn ôl pan agorodd drysau Ysgol Hafan y Môr am y tro cyntaf gydag oddeutu 70 o ddisgyblion. Erbyn hyn mae'r ysgol wedi tyfu i 173 o ddisgyblion ac mae ganddi hefyd Gylch Meithrin llawn. Rwyf mor falch o'r holl bethau yr ydym wedi'u cyflawni gyda'n gilydd; staff, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a chyfeillion yr ysgol. Yr wyf yn siŵr y cytunwch, fod yr arolygwyr wedi adlewyrchu'r ddarpariaeth a'r addysg a ddarparwn yn Ysgol Hafan y Môr ac edrychaf ymlaen at feithrin a thyfu'r ysgol ymhellach, dros y blynyddoedd nesaf.

Hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad dros y 3 blynedd diwethaf, '**mewn undod mae nerth**' ac mae hyn wedi bod yn agwedd allweddol ar lwyddiant ein hysgol.

### **Arian cinio**

Sylwer, o Fedi 1af 2019, bydd arian cinio yn cynyddu i'r canlynol bob dydd;

Cinio babanod (Meithrin - Bl.2)      £2.45

Cinio Iau (Bl.3 - Bl.6)                      £2.55

Os ydych chi'n credu y gallech fod yn gymwys i'ch plentyn / plant dderbyn prydau ysgol am ddim, casglwch ffurflen o'r dderbynfa.

Mi fydd yr Ysgol yn ail ddechrau i blant ar Ddydd Mawrth, 3ydd o Fedi. Cewch wybod am drefniadau clybiau ar ôl Ysgol, dyddiadau pwysig ayb ar ddechrau y flwyddyn academaidd newydd.

Gwyliau hapus a diogel i bawb ac edrychwn ymlaen at gwrdd eto ym Mis Medi.

Diolch i bawb unwaith eto; rhieni, plant, staff, llywodraethwyr a ffrindiau'r ysgol am eich cydweithrediad a'ch cymorth.

Cofion gorau

*V Griffiths*

Mrs Griffiths  
Pennaeth

**Presenoldeb wythnos yn gorffen: 19.07.19 - 93.43% (Targed yr Ysgol: 95.1%)**

**Attendance week ending: 19.07.19 - 93.43% (School's attendance target: 95.1%)**

Reg	Authorised Absence	Unauthorised Absence	Attended
Cregyn	5.22		94.78
Cychod	5.52		94.48
Pysgod Chwim	9.42		90.58
Ser Y Mor	4.35	0.65	95
Ynys Byr	9.52	0.95	89.52
Yr Harbwr	5.77		94.23

**Presenoldeb siomedig iawn ar gyfer yr wythnos olaf.**

**\* Presenoldeb disgyblion ysgol gyfan - 93.64%**

Mi fydd newidiadau parthed presenoldeb; awdurdodi gwyliau, colli ysgol heb rheswm teilwng ayyb. Byddaf yn eich hysbysu o'r newidiadau yn mis Medi.

**Presenoldeb tymor yr Haf 2019:**

**95.4%**

**Presenoldeb y flwyddyn academaidd 2019/20:**

**95.85% - newyddion ffantastig! Uwchben targed yr ysgol o 95.1% - diolch am eich cydweithrediad.**

**Gwybodaeth ynglŷn â dyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)**

HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion) 02.09.2019